Cofnodion o Gyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd yn hybrid ar

**ddydd Mercher, 14 Chwefror 2024**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr, Marc Davies, Meirion Davies, Gethin Davies, Raymond Evans, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Chris James, Sian Maehrlein and Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol**: Mr. Russell Hughes-Pickering – Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – Gogledd, Mrs Sian Holder- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De, Ms Elin Prysor, Swyddog Monitro, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau

(10:00am-11:30am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Davies, Ceris Jones a Mark Strong am eu analluu i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies.

**2 Materion Personol**

Dim.

**3 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**

Datganodd Mrs Sian Holder, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De, fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu mewn yng Nghais A230893 a A230898 gan adael y Siambr wrth ystyried yr eitemau hyn.

**4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y Cyfarfod ar 17 Ionawr 2024 fel rhai cywir.

**Materion yn codi**

Dim.

**5** **Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio ar y ceisiadau cynllunio canlynol a ystyriwyd mewn cyfarfod blaenorol ac a oedd angen ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor:-

A220711 Cais llawn ar gyfer datblygiad preswyl sy'n cynnwys 5 x 2 ystafell wely fflatiau hunangynhwysol, Tir wrth ymyl y Marina, Aberystwyth

**GOHIRIO**'r cais i gwblhau cytundeb A106 ynghylch darparu tai fforddiadwy a chymeradwyo'r cais yn ddibynnol ar amodau unwaith y bydd cytundeb A106 wedi'i gwblhau a hefyd i ddarparu adroddiad i'r Cyngor ar sefydlogrwydd y tir cyn ac yn ystod y gwaith adeiladu.

---

A230561 Dymchwel arfaethedig yr annedd bresennol ac adeiladu annedd newydd arfaethedig a'r holl waith cysylltiedig; The Beach House, Cae Dolwen, Aberporth, Aberteifi

**CYMERADWYO** yn ddibynnol ar amodau.

---

**6** **Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar ddatblygiad, hysbyseb; ceisiadau cynllunio statudol ac awdurdodau lleol:-

Anerchodd Mrs Gwennan Jenkins (Asiant) a Mr C Harries (Ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230293 Codi eiddo menter wledig (TAN 6) a sied, tir ger Maespwll, Talgarreg, Llandysul

**GOHIRIO**'r cais i'r Grŵp Oeri i gael ystyriaeth bellach i'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod a **CHYFEIRIO**'r cais at y Panel Arolygu Safle yn unol â Pharagraff 2 a 5 o feini prawf mabwysiedig y Cyngor.

---

A230893 Diwygio Amod 2 heb Ddeunydd - Cynlluniau Cymeradwy, Harbwr Aberaeron a Thraeth y De, Aberaeron

Cymeradwyo caniatâd ar gyfer diwygiad nad yw'n berthnasol i Amod 2 o A211019 fel a ganlyn:

- Dyluniad cymeradwy 5182114-ATK-MAR-GEN-DR-L-5003-C03 i gael ei ddisodli gan
  182114-ATK-MAR-GEN-DR-L-5003-C05; a
- Dyluniadau 5182114-ATK-MAR-GEN-SK-C-0060-C03 (Pen Cei) a 5182114 ATK-MAR-GEN-SK-C-0061-C02 (Pwll Cam) i gael eu hychwanegu i'r cynllun cymeradwy

---

A230898 Amrywio amod 2 o A211020 - Cynlluniau Cymeradwy, Harbwr Aberaeron a Thraeth y De, Aberaeron

**CYMERADWYO** bod Amod 2 o A211020 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- Dyluniad cymeradwy 5182114-ATK-MAR-GEN-DR-L-5003-C03 i gael ei ddisodli gan 5182114-ATK-MAR-GEN-DR-L-5003-C05; a
- Dyluniadau 5182114-ATK-MAR-GEN-SK-C-0060-C03 (Pen Cei) a 5182114-ATK-MAR-GEN-SK-C-0061-C02 (Pwll Cam) i gael eu hychwanegu at y cynlluniau cymeradwy.

---

**7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig**

PENDERFYNWYD nodi'r amserlen o geisiadau cynllunio yr ymdriniwyd â nhw yn Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio.

**8 Apeliadau**

CYTUNWYD i nodi'r apeliadau cynllunio a dderbyniwyd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y rhesymeg y tu ôl i'r gymeradwyaeth gan yr Arolygydd ar CAS-02678-N1G3P1 gan y Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu). Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 13 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**________________